

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwestiynau Cyffredin

Mawrth 2016



Beth yw prif amcanion y Ddeddf?

Amcanion cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau bod modd rheoli adnoddau Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig, a sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol sydd ei angen i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Beth mae'r Ddeddf yn ei wneud?

Bydd y Ddeddf yn sicrhau bod gennym agwedd ddeddfwriaethol gydgyssylltiedig tuag at reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.

Mae rhai o ddarpariaethau penodol y Ddeddf yn cynnwys:

- Helpu i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru ar lefel genedlaethol a lleol drwy Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a datganiadau ardal.
- Sicrhau bod diben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cyd-fynd yn llawn â'r egwyddorion statudol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.
- Rhoi pwerau i CNC ymgymryd â chytundebau rheoli tir a chynlluniau arbrofol.
- Cyflwyno gofyniad newydd i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.
- Cyflwyno targedau lleihau allyriadau statudol a chyllidebau carbon i gefnogi'r targedau.
- Galluogi gwelliannau i'r cynllun presennol ar gyfer bagiau siopa untro.
- Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru weithredu er mwyn sicrhau lefelau uwch o ailgylchu ar gyfer gwastraff busnes, trin gwastraff bwyd ac adfer ynni.
- Egluro'r gyfraith ar gyfer nifer o systemau rheoleiddio amgylcheddol sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys trwyddedu morol, rheoli pysgodfeydd cregyn, draenio tir a rheoli perygl llifogydd.

Pam mae angen y Ddeddf hon arnom?

Mae'r dystiolaeth yn glir mewn adroddiadau diweddar fel Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU ar gyflwr ecosystemau'r DU, sy'n dangos dirywiad mewn gwasanaethau ecosystem yn ogystal â dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth a nodwyd yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur yn 2013.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, ceir cydnabyddiaeth ryngwladol o'r angen am ddull mwy cydgyssylltiedig o reoli ein hadnoddau naturiol, sy'n cydnabod yn well werth ein hecosystemau a'u gwasanaethau.

Mae angen agwedd ddeddfwriaethol fodern arnom sy'n cydnabod bod cysylltiad rhwng ein dŵr, ein tir a'n haer a bod ein heconomi, ein cymdeithas a'n hamgylchedd i gyd yn dibynnu ar ei gilydd.

Bydd y Ddeddf hon yn cyflwyno'r newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen i sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn ffordd gydgyssylltiedig.

Sut mae'r Ddeddf yn helpu i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn well?

Bydd y Ddeddf yn helpu i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru ar lefel genedlaethol a lleol drwy'r canlynol:

- **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol**

Bydd CNC yn arwain yr adroddiad hwn, a fydd yn asesu sefyllfa adnoddau naturiol yng Nghymru. Bydd yn olrhain y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, a bydd yn sylfaen dystiolaeth hanfodol ar gyfer y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol.

- **Y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol**

Bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gydgyssylltiedig, er mwyn sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar lefel genedlaethol. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol wrth baratoi ac adolygu'r Polisi Cenedlaethol.

- **Datganiadau Ardal**

Gan weithio gyda chyrrff eraill, bydd CNC yn paratoi ac yn cyhoeddi datganiadau ardal fydd yn helpu i roi'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ar waith. Bydd y datganiadau ardal yn sail bwysig o dystiolaeth ar gyfer cyrrff sy'n gweithredu yn yr ardal dan sylw gan y byddant yn cynnwys gwybodaeth am yr adnoddau naturiol a'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.

Bydd diben newydd CNC o geisio sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy ac o roi'r egwyddorion cynhaliol ar waith yn golygu y bydd angen i CNC gyflawni ei holl swyddogaethau mewn ffordd sy'n rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.

Beth yw 'ardal' a sut y mae ei diffinio?

Nid yw'r Ddeddf yn diffinio ardal. Yn hytrach, bydd CNC, wrth gymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn penderfynu ar raddfa a lleoliad ardal all rhoi'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ar waith orau a helpu i ysgwyddo'u swyddogaethau mewn ffordd ystyrlon ac effeithlon. Mae'r ffordd hon o weithio yn cydnabod bod ecosystemau, a phenderfyniadau yn ymwneud â'u rheoli a'u defnyddio, yn digwydd ar raddfeydd gwahanol.



Sut mae'r Ddeddf yn helpu i arafu dirywiad bioamrywiaeth?

Mae Rhan 1 y Ddeddf yn argymhell rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy trwy'r dull rheoli ar sail ecosystem. Datblygwyd y ffordd hon o reoli yn wreiddiol gan Gofensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol ac mae'n cael ei chydnabod trwy'r byd fel y ffordd fwyaf effeithiol o arafu dirywiad bioamrywiaeth.

Mae'r dull rheoli ar sail ecosystem yn cyfuno prosesau cynllunio a rheoli cydgysylltiedig sy'n edrych ar ecosystemau yn eu cyfanrwydd ac yn ceisio magu cydnerthedd yr ecosystemau hynny a meithrin y buddiannau niferus y maen nhw'n eu darparu. Gan mai bioamrywiaeth yw sylfaen cydnerthedd ecosystem, mae'n elfen hanfodol o'r dull rheoli.

Bydd proses ailadroddus o gasglu tystiolaeth, datblygu polisi a chyflawni ledled Cymru yn helpu i leihau'r pwysau ar fioamrywiaeth. Bydd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn darparu tystiolaeth ar gyflwr bioamrywiaeth tra bo'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn nodi'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer mynd i'r afael â hyn. Caiff y blaenoriaethau hyn eu troi'n gyfres o gamau lleol a'u nodi yn y datganiadau ardal.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno hefyd **ddyletswydd i wella bioamrywiaeth a chydnerthedd yr ecosystemau**. Bydd y ddyletswydd hon yn cymryd lle'r ddyletswydd bioamrywiaeth bresennol ar awdurdodau lleol sy'n arfer swyddogaethau yng Nghymru.

Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau.

Mae'r ddyletswydd yn helpu hefyd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gan y bydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth wneud y ddyletswydd bioamrywiaeth newydd, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Bydd angen i awdurdodau cyhoeddus baratoi adroddiad hefyd ar yr hyn y maen nhw wedi'i wneud i gyfoethogi bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

I'w helpu i wneud y ddyletswyddau newydd hyn, rhaid i awdurdodau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun ar sut y maen nhw'n bwriadu gwneud eu ddyletswydd i wella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ac ystyried y dystiolaeth berthnasol a nodir yn y Ddeddf. Rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus hyn adolygu eu rhag-gynlluniau yng ngoleuni'r canfyddiadau yn eu hadroddiad.

Pam mae'r Ddeddf yn cryfhau'r ddyletswydd bioamrywiaeth sydd eisoes yn bodoli?

Bydd y Ddeddf yn disodli'r ddyletswydd yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 mewn perthynas â Chymru â dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth.

Dyma'r amcanion:

- Gwella'r broses o ystyried yr effeithiau ar fioamrywiaeth yn y prosesau o wneud penderfyniadau yn Neddf yr Amgylchedd.
- Sicrhau nad yw'r ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn faich ychwanegol ar awdurdodau lleol, ond yn elfen annatod o'r fframwaith deddfwriaethol o dan Ddeddf yr Amgylchedd.
- Dangos cyfraniad bioamrywiaeth at gynaliadwyedd hirdymor y prosesau ecolegol a ffisegol sy'n sylfaen i sut mae ecosystemau yn gweithio.
- Gwella gallu ein hadnoddau naturiol i ddarparu gwasanaethau ecosystem hanfodol, fel rheoli dŵr, rheoleiddio hinsawdd a pheillio cnydau, yn ogystal â gwella ein hamgylchedd.

Yng Nghymru, bydd y ddyletswydd yn berthnasol i'r awdurdodau y mae'r ddyletswydd bioamrywiaeth bresennol yn NERC 2006 yn berthnasol iddynt.

Beth yw amseriad y ddyletswydd am fioamrywiaeth?

Daeth y Ddeddf yn gyfraith ym mis Mawrth 2016 gyda'r ddyletswydd newydd ar fioamrywiaeth yn dod i rym ddeufis yn ddiweddarach.

Er nad yw'r Ddeddf yn dweud yn union pryd y mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus baratoi a chyhoeddi ei gynllun cyntaf sy'n nodi sut y mae am wneud y ddyletswydd, y bwriad yw ei fod yn gwneud hynny yn y flwyddyn gyntaf y daw'r Ddeddf i rym.

Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar wneud y ddyletswydd erbyn 2019 ac yna bob tair blynedd ar ôl y dyddiad hwn.

Sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar CNC?

Mae gan CNC rôl ganolog yn y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Er enghraifft, mae dyletswydd arno i ddarparu'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol sy'n darparu'r sylfaen dystiolaeth wrth lunio polisiau ar sut i reoli adnoddau naturiol a'u defnyddio'n gynaliadwy. Mae gofyn i CNC lunio a chyflwyno datganiadau ardal hefyd er mwyn rhoi'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ar waith ar raddfa ofodol briodol.

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwrpas cyffredinol newydd i CNC sy'n golygu y bydd ei holl waith yn seiliedig ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r pwrpas newydd hwn yn sicrhau cysondeb â'i rwymedigaethau newydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hefyd yn darparu pwerau uwch i CNC ymgymryd â chytundebau rheoli tir a chynlluniau arbrofol yn unol â'r egwyddorion hynny.

Sefydlwyd CNC fel sefydliad newydd gyda'r nod sylfaenol o reoli adnoddau naturiol mewn dull mwy integredig. Mae darpariaethau'r Ddeddf, felly, yn allweddol i'r ffordd y bydd y sefydliad yn gweithio yn y dyfodol.

Mae CNC wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad y Ddeddf.

Beth mae CNC wedi bod yn ei wneud i gynllunio ar gyfer ei ofynion fel rhan o'r Ddeddf?

Mae CNC eisoes wedi datblygu gwaith er mwyn ymgorffori dull integredig o weithio, ac mae'n gweithio i gysoni'r strwythur cyflawni gweithredol ymhellach er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r dyletswyddau newydd yn y Ddeddf.

Mae CNC wedi arwain tri threial ardal, yn ardaloedd Tawe, Rhondda a Dyfi, i weld sut y gellir ymgorffori dull integredig o reoli adnoddau naturiol o fewn gwaith CNC ac o fewn ardaloedd daearyddol penodol.

Mae'r treialon wedi helpu i sicrhau manteision ymarferol ar lawr gwlad ar gyfer cymunedau yn ardal pob treial. Maen nhw hefyd wedi helpu i ddangos beth sydd angen ei wneud yn ymarferol i Reoli Adnoddau Naturiol tra'n dysgu ar hyd y ffordd. Caiff yr wybodaeth a'r dysgu a esgorwyd gan y treialon eu defnyddio i ddatblygu datganiadau ardal fydd yn gosod allan y prif heriau, cyfleoedd a blaenoriaethau lleol ar gyfer defnyddio a rheoli adnoddau naturiol yn y dyfodol.

Nod y treialon hyn yw ceisio sicrhau cymaint o fanteision â phosibl i bobl, amgylchedd a busnesau Cymru, drwy fanteisio ar y cyfleoedd a nodwyd ar y cyd gydol eu datblygiad a'u gweithrediad. Bydd hyn wedi cael ei wneud ochr yn ochr â mesurau i feithrin ecosystemau iach a chydnerth sy'n darparu a chynnal y manteision hyn. Mae'r treialon hefyd wedi bod yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o rôl cyrff cyhoeddus eraill, rheolwyr tir a busnesau preifat i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Sut mae'r Ddeddf yn ystyried tirweddau a llefydd arbennig Cymru?

Mae ein tirweddau'n rhoi cyfle i ni reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ar raddfa briodol gan eu bod yn cynrychioli cysylltiadau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol o fewn ardal benodol. Mae'r rhyng-gysylltiadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, sy'n cynnwys gofyniad i ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer mynd i'r afael â mater, blaenoriaeth neu gyfle penodol. Nid yw graddfa ofodol briodol yn seiliedig ar ffiniau ecolegol yn unig, mae'n seiliedig ar ffactorau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd hefyd.

Mae'r egwyddorion hefyd yn gofyn am ystyried y gwahanol fanteision a dderbyniwn o'n hadnoddau naturiol, yn cynnwys gwasanaethau diwylliannol. Mae'r rhain yn cynnwys gwerthoedd esthetig, ysbrydol a hamdden, er enghraifft, ac felly mae'r dull hwn yn cwmpasu holl elfennau'r dirwedd a mwy.

Beth yw rôl Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru wrth weithredu'r Ddeddf?

O dan y Ddeddf, mae gofyn i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ystyried yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a datganiadau ardal wrth gyhoeddi, mabwysiadu neu adolygu cynlluniau rheoli.

Mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru ddyletswydd hefyd i ddarparu gwybodaeth neu gymorth i CNC wrth baratoi'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol neu ddatganiad ardal, os yw CNC yn gwneud cais am hynny. Mae dyletswydd arnynt hefyd i gynorthwyo CNC i weithredu datganiad ardal, os yw CNC yn gwneud cais am hynny.

Fodd bynnag, ni fydd rhaid i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gydymffurfio â'r ceisiadau hyn pan fyddai gwneud hyn yn mynd yn groes i'w dyletswyddau, er enghraifft.

Gall Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol weithio gyda CNC i weithredu datganiad ardal, er enghraifft drwy fynd i'r afael ag unrhyw flaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd a nodwyd yn y datganiad.

Bydd gofyn i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol gyflawni'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau newydd hefyd.

Pa rôl fydd gan awdurdodau lleol yn y gwaith o weithredu'r Ddeddf?

Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol fel corff cyhoeddus o dan y Ddeddf i ddarparu gwybodaeth neu gymorth i CNC wrth baratoi Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol neu ddatganiad ardal, os yw CNC yn gwneud cais am hynny. Bydd dyletswydd arnynt hefyd i gynorthwyo CNC i weithredu datganiad ardal, os yw CNC yn gwneud cais am hynny.

Fodd bynnag, ni fydd yn rhaid i awdurdodau lleol ateb y ceisiadau hyn pan fyddai gwneud hynny'n mynd yn groes i'w dyletswyddau, er enghraifft.

Bydd datganiadau ardal yn rhoi tystiolaeth glir a chyson i awdurdodau lleol, y gallant ei hystyried wrth gyflawni eu gweithgareddau, ac yn nodi'r cyfleoedd, y risgiau a'r cyfyngiadau y mae adnoddau naturiol yn eu cynnig yn eu hardal. Bydd hyn yn cefnogi ein hymrwymiad i sicrhau gwasanaeth cyhoeddus cryf, effeithlon a hygyrch ac yn rhoi gwell sail i gyfeiriad y twf a'r datblygiad economaidd cynaliadwy sydd ei angen ym mhob ardal.

Bydd gofyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried datganiadau ardal wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried hefyd ddatganiadau ardal pan fyddant yn cynnal asesiad llesiant lleol a bydd hyn felly'n cyfrannu at gyflawni amcanion cyrff cyhoeddus a chynlluniau llesiant lleol byrddau gwasanaethau cyhoeddus lleol a'r modd y cânt eu cyflawni, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd gofyn i awdurdodau lleol gyflawni'r ddyletswydd newydd i wella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau hefyd. Gall hynny eu helpu i gyflawni'u dyletswyddau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Sut mae'r Ddeddf yn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd?

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno targedau lleihau allyriadau statudol a chyllidebau carbon i helpu i'w cyflawni.

Mae'r dull newydd hwn o reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yng Nghymru yn helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt. Bydd hyn yn digwydd mewn sawl ffordd:

- Mae'n cryfhau iechyd ein hadnoddau naturiol i leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd arnynt. Bydd yn helpu i nodi'r pwysau sydd ar ein hadnoddau naturiol a sut y gallwn ni eu gwneud yn fwy cydnerth.
- Mae'n ein galluogi i ystyried y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan adnoddau naturiol a nodi cyfleoedd i ddarparu twf gwyrdd fel y gallwn addasu i effaith y newid yn yr hinsawdd a'i lliniaru.
- Mae'n sicrhau bod modd ystyried cydnerthedd fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, fel ystyried effaith gweithgaredd penodol ar gydnherthedd o'r cychwyn cyntaf.

Pa dargedau y mae'r Ddeddf yn eu cyflwyno?

Er mwyn sicrhau bod Cymru'n cyfrannu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod allyriadau net Cymru yn 2050 o leiaf 80% yn is na'r llinell sylfaen.

Caiff targedau allyriadau interim eu gosod hefyd ar gyfer 2020, 2030 a 2040 a'u cyflwyno erbyn diwedd 2018. Bydd y targedau interim hyn yn helpu i asesu'r cynnydd at daro'r targed tymor hir ar gyfer 2050.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi pennu targedau newid yn yr hinsawdd. Pam mae'r Ddeddf hon yn cynnwys targedau?

Mae'r Ddeddf yn cynnwys targedau statudol tymor hir i sbarduno gweithredu i arafu'r newid yn yr hinsawdd. Fel llywodraeth rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod newid yn yr hinsawdd yn ganolog i'n dull o reoli'n hadnoddau naturiol a amlinellir yn y Ddeddf.

Mae cynnwys targedau statudol a chyllidebau carbon yn y Ddeddf yn ein galluogi i werthuso cynnydd yn well, yn rhoi'r sicrwydd sy'n sbarduno buddsoddiad mewn economi carbon isel. Gyda'r darpariaethau ynghylch rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mae'r Ddeddf yn sicrhau bod gan Gymru economi ffyniannus ac amgylchedd iach a chydnerth.

Wrth i wyddoniaeth newid yn yr hinsawdd esblygu ac i fwy o wybodaeth ddod i'r fei, mae'r Ddeddf yn rhoi mwy o hyblygrwydd i sicrhau bod y targedau a'r cyllidebau carbon yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio targedau a chyllidebau carbon mewn ymateb i dystiolaeth wyddonol newydd neu ddatblygiadau Ewropeaidd a Rhyngwladol. Cyn pennu neu ddiwygio unrhyw darged neu gyllideb, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gael cyngor gan y corff cyngori.

Beth sy'n digwydd os na fodlonir targedau newid hinsawdd y Ddeddf?

Mae'r Ddeddf yn gosod ein huchelgais i leihau allyriadau ar sail statudol. Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i gydymffurfio â'r gyfraith ac mae hyn yn bwysig iawn ynddo'i hun.

Rydym ni o'r farn bod dyletswyddau'r Ddeddf – yn cynnwys y gofyniad i fodloni'r targedau a'r cyllidebau ac adrodd ar gynnydd – yn llym ac yn bosibl i'w gorfodi o dan y gyfraith.

Mae'r sail statudol yn golygu y gall unrhyw fethiant i gyflawni targed neu gyllideb arwain at adolygiad barnwrol, gyda chmau unioni ar gael yn ôl disgrisiwn y llysoedd, ac ni fydd unrhyw lywodraeth yn mentro hyn ar chwarae bach.

O dan y Ddeddf, mae llawer o ddarpariaethau i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi cynigion a pholisïau i wneud iawn am yr allyriadau gormodol mewn cyfnodau cyllidebol diweddarach. Pwrpas y ddarpariaeth hon yw sicrhau y byddwn yn parhau ar y llwybr cywir i gyrraedd ein targedau.

Pam nad yw targed newid yn yr hinsawdd 2050 yn uwch?

Mae ein nod o sicrhau lleihad o 80% o leiaf erbyn 2050 yn cyd-fynd â rhwymedigaethau ehangach y DU a'r UE. Mae Cymru a'r DU yn rhan o grŵp arweiniol o wledydd sy'n cymryd camau deddfwriaethol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Mae darpariaethau'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i sicrhau gostyngiad o 80% mewn allyriadau erbyn 2050. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno fframwaith hirdymor ar gyfer gweithredu, a darpariaethau i godi'r targed hwn yn y dyfodol i gyd-fynd â datblygiadau mewn technoleg, polisi rhyngwladol a'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf.

Mae'r targed hwn yn heriol iawn a bydd rhaid i ni newid y ffordd rydym yn defnyddio a chynhyrchu ynni'n sylweddol i gyrraedd y targed. Bydd rhaid i bob sector arbed llawer mwy o ynni nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Wrth wynebu her newid yn yr hinsawdd mae'n allweddol bod pawb yng Nghymru – y llywodraeth, busnesau, y sector cyhoeddus a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, cymunedau a theuluoedd – yn cyfrannu'n llawn at yr ymdrech.

A fydd targedau newid hinsawdd llym yn golygu y bydd economi a busnesau Cymru'n dioddef?

Mae newid yn yr hinsawdd yn creu nifer o gyfleoedd i economi Cymru ym maes twf gwyrdd a lleihau allyriadau. Mae Cymru wedi cymryd camau breision eisoes wrth symud tuag at economi werdd, carbon isel. Mae'r economi werdd yn sector sydd wedi ennill ei phlwyf ac sy'n tyfu yn economi Cymru, gan gyfrannu £5.5 biliwn i'r economi yn 2011/12. Yn ystod y dirwasgiad gwelwyd cynnydd o tua 2.4% yn swyddi'r sector hwn a chynnydd o 9.3% mewn gwerthiant. Mae Llywodraeth Cymru a byd busnes eisoes yn buddsoddi biliynau o bunnoedd yng Nghymru i ddiogelu swyddi twf gwyrdd a sicrhau bod ein cymunedau a'n busnesau'n gydnherth yn erbyn newid yn yr hinsawdd a phrinder adnoddau.

Bydd llwybr clir ar gyfer datgarboneiddio yng Nghymru yn darparu sicrwydd ac eglurder i fuddsoddi yn ogystal â thryloywder. Bydd y dull cyllidebu carbon yn cael ei ddatblygu ar sail cyngor arbenigol, gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd yn enwedig, i sicrhau ein bod ni'n lleihau allyriadau mewn ffordd sy'n cyflawni ein rhwymedigaethau ac yn sicrhau'r manteision economaidd a chymdeithasol gorau posibl i Gymru wrth wneud hynny.

Mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi amcangyfrif y bydd cymryd camau gweithredu cynnar ym maes newid yn yr hinsawdd yn dod â rhwng £100 a £200 biliwn o fudd i economi'r DU erbyn 2030.



Pam rydyn ni am newid y Cynllun Codi Tâl am Fagiau Siopa?

Mae'r tâl presennol am fagiau siopa wedi bod yn llwyddiant mawr o ran lleihau'r galw am fagiau siopa untro, gan arwain at ostyngiad sylweddol yn y galw hwnnw. Er mwyn adeiladu ar y llwyddiant hwnnw a pharhau i leihau nifer y bagiau siopa newydd sy'n cael eu cyflenwi, bydd y Ddeddf yn rhoi rhagor o bwerau i Weinidogion Cymru fedru addasu mewn ymateb i unrhyw dueddiadau a ddaw i'r amlwg ymhlith defnyddwyr neu mewn ymateb i ganlyniadau na fwriadwyd i'r tâl eu cael, er enghraifft, mwy o alw am fagiau siopa nad ydynt yn rhai untro a gwaredu'r bagiau hynny mewn ffordd amhriodol.

Beth mae'r darpariaethau ar fagiau siopa yn ei wneud?

Mae'r darpariaethau yn estyn y pwerau presennol sydd gan Weinidogion Cymru er mwyn iddynt fedru gwneud rheoliadau i osod isafswm tâl am unrhyw fathau o fagiau siopa, yn ogystal â bagiau siopa untro. Bydd y darpariaethau hefyd, drwy gyfrwng rheoliadau, yn gosod dyletswydd ar fanwerthwyr i ddefnyddio'r enillion net o'r tâl am fagiau siopa er budd elusennau sy'n ymwneud â diogelu neu wella'r amgylchedd ac sydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn dod â budd i Gymru neu ran ohoni. Eithriad yw'r manwerthwyr hynny sy'n rhoi gwybod eu bod am barhau â'u trefniadau presennol gydag achosion da nad ydyn nhw'n gysylltiedig â'r amgylchedd.

Ydych chi'n bwriadu gosod isafswm tâl am fathau eraill o fagiau?

Dim ond os byddwn ni'n gweld yn y dyfodol, ar ôl monitro ac edrych ar y dystiolaeth, bod angen gwneud hynny. Er enghraifft, os bydd y dystiolaeth yn dangos bod y galw am fathau eraill o fagiau, a'r modd y byddan nhw'n cael eu gwaredu, yn creu mwy o risg i'r amgylchedd, mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r cynnydd hwnnw yn y galw yw drwy gwneud rheoliadau i osod isafswm tâl am fathau eraill o fagiau.

Ydych chi'n bwriadu gwneud rheoliadau er mwyn gosod dyletswydd ar fanwerthwyr i roi eu henillion net i achosion da?

Ydyn. Mae'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr roi eu henillion net er budd elusennau sy'n ymwneud â diogelu neu wella'r amgylchedd ac sydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn dod â budd i Gymru neu ran ohoni. Eithriad yw'r manwerthwyr hynny sy'n rhoi gwybod eu bod am barhau â'u trefniadau presennol gydag achosion da nad ydyn nhw'n gysylltiedig â'r amgylchedd. Caiff manylion sut ac i bwy y caiff yr enillion eu rhoi a'r amgylchiadau pan ganiateir yr eithriad, eu disgrifio yn y Rheoliadau newydd.

Beth yw'r amserlen ar gyfer y rheoliadau sy'n ymwneud â chodi tâl am fagiau siopa?

Nid yw'n fwiad gennym ddiwygio'r rheoliadau presennol er mwyn gosod isafswm tâl am fathau eraill o fagiau siopa nes y bydd y dystiolaeth yn dangos bod angen gwneud hynny. O ran gosod dyletswydd i ddefnyddio'r enillion net o'r tâl am fagiau siopa at achosion da, rhagwelir y bydd y ddarpariaeth hon yn dod i rym trwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru ar ddiwrnod y cytunwyd ganddynt.



Sut y bydd y Ddeddf yn effeithio ar gynllunio morol a diwydiant pysgota Cymru?

Bydd y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol statudol cyntaf yn pennu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol yn gyffredinol ac yn cyfeirio at Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru fel y fframwaith ar gyfer cynnal adnoddau naturiol morol Cymru yn gynaliadwy. Mae Datganiad Polisi Morol y DU 2011 a Chyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morol 89/2014 yn datgan bod rhaid mabwysiadu dull rheoli ecosystem mewn cysylltiad â chynlluniau morol. Bydd Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru'n adlewyrchu cyd-destun dull yr ecosystem ar gyfer ardal forol Cymru. Bwriad Llywodraeth Cymru yw ymgynghori ar Gynllun Morol cyntaf Cymru yn ddiweddarach eleni, hynny cyn y broses o fabwysiadu a chyflwyno'r Cynllun yn ffurfiol.

Nod y Ddeddf yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n gallu cydymffurfio â'u rhwymedigaethau amgylcheddol gan greu cyfleoedd datblygu economaidd cynaliadwy yng Nghymru, a fydd yn arwain at fwy o sefydlogrwydd a thwf i'r diwydiant.

Mae'r pwerau estynedig a ddarperir trwy'r Ddeddf yn galluogi Awdurdod Trwyddedu Morol Cymru i godi ffioedd sy'n gysylltiedig â gweinyddu trwyddedau morol. Mae hyn yn galluogi'r awdurdod trwyddedu morol i godi ffioedd ar gyfer y canlynol lle bo'n bosibl:

- Cyngor a chymorth, er enghraifft ar gyfer gwaith cyn gwneud cais.
- Ymdrin â cheisiadau ar gyfer amrywio, trosglwyddo, atal neu ddirymu trwydded.
- Monitro trwydded forol, yn cynnwys asesu adroddiadau monitro, cyflawni amodau a phroffion cydymffurfiaeth.

Beth yw'r amserlenni ar gyfer y Ddeddf?

Rhodddwyd y Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf ar 21 Mawrth 2016.

Bwriedir cyhoeddi'r Adroddiad statudol cyntaf ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn Hydref 2016.

Y bwriad yw sicrhau bod y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol cyntaf yn ei le erbyn Gwanwyn 2017.

Sut mae costau a manteision y ddarpariaeth wedi cael eu hasesu?

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) yn rhan annatod o broses Llywodraeth Cymru o lunio polisiâu a datblygu deddfwriaeth. Ar gyfer cynigion deddfwriaethol, mae angen RIA i ddarparu amcangyfrifon gorau o'r canlynol:

- Costau gweinyddol, cydymffurfio a chostau eraill gros a fyddai'n deillio o ddarpariaethau'r Ddeddf.
- Yr amserlenni ar gyfer y costau disgwylidig.
- Pwy fydd yn ysgwyddo'r costau.

Mae RIA ar gyfer y Ddeddf wedi'i gwblhau ac mae'n rhan o'r Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â Bil yr Amgylchedd pan gafodd ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2015. Cafodd fersiwn o'r RIA ei diweddarau ym mis Mawrth 2016 i ystyried y newidiadau a wnaed i'r Bil yn ystod ei daith trwy'r Cynulliad.

Sut ydych chi wedi casglu safbwyntiau rhanddeiliaid?

Cyhoeddwyd Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd ar 23 Hydref 2013 er mwyn ymgynghori. Roedd hwn yn gyfle i ni ymgysylltu â rhanddeiliaid yn uniongyrchol a rhoi gwybod iddynt am sut rydym am weld adnoddau naturiol yn cael eu rheoli. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gyfle i rhanddeiliaid leisio eu barn a helpu i lywio'r Bil. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 15 Ionawr 2014 a daeth cyfanswm o 182 o ymatebion i law.

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori ledled Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori. Canolbwyntiodd y digwyddiadau ar drafod rhai o'r cwestiynau a'r materion penodol a oedd wedi deillio o'r Papur Gwyn, ac anogwyd amrywiaeth eang o rhanddeiliaid i gymryd rhan.

Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Mawrth 2014. Dangosodd y broses ymgynghori fod cefnogaeth gadarnhaol eang i gynigion y Papur Gwyn.

Yn ogystal â'r ymgynghoriad, bu deialog gyson â rhanddeiliaid, gan gynnwys drwy'r Grŵp Cyfeirio Adnoddau Naturiol. Mae'r Grŵp Cyfeirio wedi cyfarfod tua unwaith bob deufis ers cyhoeddi'r Papur Gwyn, a bydd yn parhau i wneud hynny. Bu trafodaethau cyson â rhanddeiliaid hefyd, gan gynnwys drwy drefnu a mynychu gweithdai, cynadleddau a chyfarfodydd un i un.

Ym mha ffordd y bydd y Ddeddf o fudd i fusnesau?

Dyma'r manteision i fusnesau:

- Cynllunio'r prosesau rheoleiddio yn fwy effeithiol.
- Gwybodaeth gliriach am ganlyniadau, cyfleoedd a rhwystrau amgylcheddol a fydd o gymorth wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud â buddsoddi.
- Fframwaith mwy rhagweladwy a chyson ar gyfer gwneud penderfyniadau amgylcheddol, drwy leihau'r ansicrwydd mewn systemau cynllunio a systemau rheoleiddio eraill.
- Cymorth i farchnadoedd newydd mewn perthynas â gwasanaethau amgylcheddol, fel rheoli carbon a dŵr.
- Sicrhau bod costau cydymffurfio yn briodol i raddfa'r risg amgylcheddol.
- Arbed costau i fusnesau drwy osgoi treth dirlenwi.
- Cynyddu cystadleurwydd busnesau drwy leihau costau deunyddiau.
- Rhoi hwb i gyflogaeth drwy greu swyddi ym meysydd casglu ac ailbroesu.
- Cynhyrchu rhagor o ynni adnewyddadwy o wastraff busnes.
- Diogelu ymhellach y cyflenwad adnoddau ar gyfer ein sector gweithgynhyrchu.
- Helpu i sicrhau economi gylchol werdd i Gymru wrth i fusnesau gweithgynhyrchu Cymru ddefnyddio deunydd eildro a gasglwyd yng Nghymru.

Ym mha ffordd y bydd y Ddeddf o fudd i gymunedau Cymru?

Bydd y Ddeddf yn darparu'r manteision canlynol ar gyfer cymunedau:

- Buddsoddiad cadarnhaol mewn gwelliannau amgylcheddol lleol a dargedir.
- Canolbwyntio mwy ar anghenion, cyfleoedd a phryderon lleol.
- Rhagor o fewnbwn lleol i benderfyniadau.



Ym mha ffordd y bydd y Ddeddf o fudd i'r amgylchedd a byd natur?

Dyma'r manteision i'r amgylchedd:

- Buddsoddiad wedi'i dargedu'n fwy penodol ym maes gwelliannau amgylcheddol.
- Camau gweithredu cadarnhaol i fynd i'r afael ag ysgogwyr sylfaenol newid. amgylcheddol.
- Hwb i gydnerthedd rhag pwysau yn sgil newid yn yr hinsawdd a lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
- Agwedd strategol tuag at hyrwyddo'r gwaith o adfer ac adennill rhywogaethau a chynefinoedd
- Penderfyniadau sy'n adlewyrchu'r manteision a gawn o'n hamgylchedd yn llawnach.
- Darparu prosesau rheoleiddio mwy effeithiol, effeithlon ac integredig.
- Darparu gwybodaeth gliriach am ganlyniadau, cyfleoedd a rhwystrau. amgylcheddol i gynorthwyo penderfyniadau yn ymwneud â buddsoddi.
- Darparu fframwaith mwy rhagweladwy a chyson ar gyfer penderfyniadau amgylcheddol.

Sut y bydd y Ddeddf yn effeithio ar ffermio yng Nghymru / sut y bydd ffermwyr yn elwa?

Mae'r Ddeddf yn helpu ffermwyr a thirfeddianwyr i ddeall rôl yr adnoddau naturiol ar eu tir a'r effeithiau posibl ar eu dull o reoli'r tir.

Gall helpu ffermwyr a thirfeddianwyr i nodi cyfleoedd posibl ar gyfer Taliadau am Wasanaethau Ecosystem ac offerynnau talu eraill.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo gwaith ar dirweddau ac yn cynnig cyfleoedd i reolwyr tir a ffermwyr weithio mewn partneriaeth neu mewn cydweithfeydd gyda thirfeddianwyr neu fusnesau eraill.

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r grym i CNC greu cytundebau rheoli tir i weithio gyda thirfeddianwyr neu fusnesau fel eu bod yn ymrwymo i gytundebau rheoli tir gwirfoddol i reoli eu tir yn fwy cynaliadwy. Gallai cytundeb, er enghraifft, ei gwneud hi'n ofynnol i dirfeddianwyr gyflawni gweithgareddau ar ei dir i reoli llif dŵr yn well drwy'r tir er mwyn lliniaru llifogydd i lawr yr afon, a byddai'n derbyn tâl am wneud hyn.

Sut mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015?

Yr egwyddor sy'n cysylltu'r tri darn o ddeddfwriaeth yw ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy fel y ffordd orau o wella lles Cymru ar hyn o bryd ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gweithio tuag at gyflawni amcanion lles drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn sefydlu proses statudol fodern i helpu i gynllunio a rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd fwy cydgyssylltiedig, ac mae Bil Cynllunio (Cymru) yn creu proses effeithlon i sicrhau bod y datblygiad priodol wedi'i leoli yn y lle priodol.

Yr amcan cyffredinol yw cyflwyno'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i sicrhau lles hirdymor Cymru. Er bod y tri darn o ddeddfwriaeth yn canolbwyntio ar feysydd gwahanol o'r gyfraith, mae angen y newidiadau i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud i gyflawni'r saith amcan mewn perthynas â lles.

Sut mae'r Ddeddf helpu i wireddu'r amcanion llesiant fel ag sy'n ofynnol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 / cefnogi datblygu cynaliadwy?

Mae Deddf yr Amgylchedd yn ategu'r darpariaethau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Amcan y saith nod llesiant yw diogelu dyfodol tymor hir Cymru trwy'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn sicrhau y daw nifer fawr o fanteision sy'n gallu galluogi awdurdodau cyhoeddus i gyflawni'r nodau llesiant. Er enghraifft, mae'r darpariaethau yn Neddf yr Amgylchedd yn gallu ategu'r nodau llesiant trwy helpu i greu economi carbon isel, defnyddio adnoddau mewn ffordd gynaliadwy, gweithredu i arafu'r newid yn yr hinsawdd a chynnal a chyfoethogi amgylchedd naturiol bioamrywiol ag ynddo ecosystemau iach sy'n gweithio. Gall Deddf yr Amgylchedd ddarparu manteision lu eraill fel gwella ansawdd y gofod gwyrdd all gynnig manteision i lesiant corfforol a meddygol a chreu cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Mae'n helpu hefyd i wneud Cymru'n lle mwy cyfartal, trwy roi'r cyfle i gymunedau gyfrannu at wneud penderfyniadau ar y lefel leol ynghylch sut orau i reoli adnoddau naturiol eu bröydd.

Rhan hanfodol o'n hymdrechion i reoli'n hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yw cryfhau ecosystemau a gwasanaethau ecosystemau Cymru. Bydd hynny'n diogelu llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru. Er mwyn gallu eu rheoli'n gynaliadwy, rhaid sicrhau nad yw'r buddiannau y mae cenedlaeth heddiw yn eu cael ohonynt yn lleihau potensial cenedlaethau'r dyfodol i'w defnyddio i ddiwallu eu hanghenion a gwireddu eu dyheadau hwythau. Mae'r Ddeddf yn creu proses statudol fodern fydd yn helpu i gynllunio a rheoli ein hadnoddau naturiol trwy ddatblygu cynaliadwy fydd yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Yn ogystal, mae Deddf yr Amgylchedd yn cyflwyno datganiadau ardal y bydd yn rhaid eu hystyried wrth asesu llesiant lleol. Bydd hynny yn ei dro yn bwydo'r cynlluniau llesiant lleol a ddefnyddir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus.

Gan y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n aelod o banel cynghori Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus, bydd ganddo ran allweddol wrth sicrhau bod rheolaeth gynaliadwy ar ein hadnoddau naturiol yn ystyriaeth ganolog yn adroddiad achlysurol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ran cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

A fydd y Ddeddf yn arwain at fwy o gymhlethdod a biwrocratiaeth i wasanaethau cyhoeddus Cymru?

O dan Ddeddf yr Amgylchedd, bydd dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwybodaeth neu gymorth i CNC wrth baratoi Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol neu ddatganiad ardal, os yw CNC yn gwneud cais am hynny. Bydd dyletswydd arnynt hefyd i gynorthwyo CNC i weithredu datganiad ardal, os yw CNC yn gwneud cais am hynny. Fodd bynnag, ni fydd gofyn iddynt ateb y ceisiadau hyn os ydynt yn mynd i'w groes i'w dyletswyddau.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran ei fod yn ceisio cyflwyno trefniadau cydweithio a dull mwy cydgysylltiedig o weithio. Nod y ddwy ddeddfwriaeth yw lleihau cymhlethdod drwy ddarparu fframwaith ystyrion o dystiolaeth, polisi a gweithredu.

Er bod y ddyletswydd o ran bioamrywiaeth yn cynnwys gofyniad i adrodd, nid oes disgwyl i'r adroddiad fod yn fanwl na maith ac ni ddylai fod yn faich. Er enghraifft, gallai awdurdodau lleol gydymffurfio â'r gofyniad drwy gynnwys ychydig dudalennau am fioamrywiaeth mewn unrhyw adroddiad maent yn ei baratoi'n barod.

Mae pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi cyfle i gyfuno gofynion adrodd. Y bwriad yw y bydd y gyrff sy'n dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ddyletswydd fioamrywiaeth uwch yn gallu adrodd ar sut maent yn cyflawni'r ddyletswydd fioamrywiaeth yn eu hadroddiadau ac ar sut maent yn bodloni eu nodau llesiant. Er mai mater i'r corff cyhoeddus fydd hyn, bydd Llywodraeth Cymru'n annog yr arfer trwy arweiniad.

Sut alla i gael rhagor o wybodaeth?

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, e-bostiwch ni ar: naturalresourcemanagement@wales.gsi.gov.uk

Os hoffech inni'ch rhoi ar y rhestr bostio, e-bostiwch ni ar: NRBulletin@cymru.gsi.gov.uk

Ewch i'n gwefan <http://llyw.cymru/ddeddfyramgylchedd> i weld ffilm fer wedi'i hanimeiddio am amcanion y Ddeddf a rhai taflenni ffeithiau.

I weld sut aeth y Ddeddf trwy'r broses ddeddfwriaethol yn y Cynulliad Cenedlaethol, ewch i www.cynulliad.cymru

Am ragor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Cynllunio 2015, ewch i:

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

<http://gov.wales/legislation/programme/assemblybills/planning/?skip=1&lang=cy>